



Cyflawni drwy
Brofiad Gwaith
Achieve through
Work Experience



Astudiaeth Achos Profiad Dysgu Cyflogwr Lletyol: Ysgol Friars, Bangor

Beth yw GO Wales?

Mae project 'GO Wales', sydd wedi ei leoli ym Mhrifysgol Bangor, yn helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd a chynyddu eu siawns o gael swydd addas i raddedigion ar ôl gadael y brifysgol.

Am y myfyriwr / myfyrwraig

Roedd y myfyriwr yn ei drydedd flwyddyn yn astudio Bioleg Môr mewn Eigioneg ac roedd yn bwriadu gwneud cais i fynd ar gwrs TAR yn dilyn ei radd. Er mwyn gwneud hyn roedd angen iddo gael rhywfaint o brofiad mewn dosbarth i helpu gyda'r cais TAR. Roedd angen i'r lleoliad hefyd fod mewn ysgol wahanol i'r un roedd wedi mynd iddi o'r blaen.

Disgrifiwch pam eich bod yn teimlo bod angen cefnogaeth GO Wales arnoch i ddod o hyd i brofiad gwaith?

Rwyf ar hyn o bryd yn astudio am radd Bioleg Môr mewn Eigioneg, gyda'r nod o wneud TAR mewn Daearyddiaeth ar ôl graddio. Wrth wneud cais am TAR, mae'n ofynnol bod gennych chi brofiad mewn ysgol cyn i chi wneud cais, fel y gellwch gadarnhau mai hwn yw'r llwybr gyrfa rydych ei eisiau. Yn achos y brifysgol rwyf i eisiau gwneud cais iddi, fe ddywedir na ddylai'r profiad gwaith fod mewn ysgol rydych wedi mynd iddi o'r blaen. Golygai hyn na allwn gael y profiad perthnasol yn fy ysgol yn ôl adref a chyda'm diffyg gwybodaeth o'r Gymraeg, doeddwn i ddim yn gwybod ble i ofyn am brofiad tra oeddwn yn astudio yng Nghymru. Dyma oedd pryd y cefais fy nghyfeirio at GO Wales.

Pa fath o waith a wnaethoch yn ystod eich lleoliad?

Dilynais amrywiaeth o athrawon yn yr adran Ddaearyddiaeth wrth eu gwaith, gan eu gwyllo yn dysgu dosbarthiadau o flwyddyn 7 i 13. Yn ystod yr amser hwn sylwais ar wahanol dechnegau addysgu a sut y byddai'r iaith yn newid nid yn unig yn ôl y gwahanol grwpiau blwyddyn ond hefyd gyda'r grwpiau o allu gwahanol. Pan fyddai hynny'n bosibl, byddwn yn cyfrannu fy ngwybodaeth a'm profiad er mwyn rhoi gwybodaeth ychwanegol, naill ai i'r dosbarth cyfan neu yn unigol gyda disgybl a fyddai angen help.

Sut mae'r lleoliad hwn wedi eich helpu gyda'r llwybr gyrfa yr hoffech ei ddilyn?

Fe wnaeth cyflawni'r profiad gwaith hwn, yn arbennig mewn ysgol wahanol i'r un yr euthum iddi, helpu i gadarnhau mai hwn yw'r llwybr gyrfa yr hoffwn ei ddilyn. Er y bydd yn waith caled a blinedig, fel y gwelais dim ond o wneud wythnos o brofiad gwaith, rwy'n credu'n sicr ei bod yn yrfa werth chweil - ac yn fwy na dim ond swydd yn unig.

Ydych chi'n teimlo eich bod wedi cyflawni unrhyw rai o'r amcanion a osodwyd gennych cyn dechrau'r lleoliad?

Llwyddais i gyflawni'r holl amcanion a osodais i mi fy hun. Er fy mod yn hynod nerfus cyn mynd i'r ysgol ac yn poeni'n arw a fyddwn yn gwneud yn dda wedi mynd yn ôl i ystafell ddosbarth am y tro cyntaf mewn 5 mlynedd, eto cefais fy synnu pa mor hyderus yr oeddwn yn teimlo ar ôl dechrau. Cefais gyfle i ofyn llawer o gwestiynau'n ymwneud â gweithio fel athro, fel faint o oriau mae athrawon yn ei weithio mewn wythnos, pa mor aml y cynhelir hyfforddiant a pha mor hir mae'n ei gymryd i gynllunio un wers. Llwyddais i holi hefyd am faterion mwy modern megis faint o hyfforddiant mae ysgolion yn ei gael i ymdrin â materion LGBT, materion iechyd meddwl ac anawsterau dysgu - materion sy'n cael sylw cynyddol erbyn hyn.



Cyflawni drwy
Brofiad Gwaith
Achieve through
Work Experience



Sut fydddech chi'n disgrifio'r profiad o weithio yn y rôl hon?

Roedd y profiad o fod mewn ystafell ddosbarth ac ymwneud ag addysgu yn bleserus iawn ac yn cadarnhau fy nod i hyfforddi i fod yn athro.

Fedwrch chi ddisgrifio unrhyw sgiliau newydd yr ydych wedi eu dysgu nad oeddech chi'n eu disgwyl?

Fe wnes i ddysgu ychydig o sgiliau nad oeddwn yn meddwl y byddwn yn eu cyflawni, yn enwedig mewn cyfnod mor fyr. Dysgais sut i newid iaith a rhyngweithio gyda gwahanol grwpiau oedran a gallu. Roedd hyn yn cynnwys rhyngweithio gyda grŵp i'w meithrin (disgyblion sydd ag anawsterau dysgu) a sut y gall addysgu amrywiol/wedi'i addasu'n arbennig fod yn fuddiol i'r unigolion hyn. Ar ben hynny, dysgais sut i ddangos atebion i ddisgyblion drwy eu cyfeirio i'r cyfeiriad cywir heb roi atebion iddynt yn benodol ond dangos iddynt sut i ddod o hyd i'r atebion drostynt eu hunain.

Ydych chi'n teimlo bod y cyfle gwaith hwn wedi eich helpu i ddod dros unrhyw rwystrau i ddod o hyd i brofiad gwaith?

Fe wnaeth y lleoliad fy helpu i gael cysylltiadau mewn ysgol na fyddwn wedi eu cael heb gymorth GO Wales. Ers y cyfle hwn, rwyf hefyd wedi cwblhau wythnos arall o brofiad gwaith yn dilyn athrawon wrth eu gwaith.

Beth oedd uchafbwyntiau gweithio yn y lleoliad hwn?

Fe wnes i fwynhau'r profiad gwaith cyfan drwodd a thro, felly mae'n anodd nodi uchafbwyntiau unigol.

Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i fyfyrwyr sy'n ystyried gwneud cais i GO Wales?

Byddwn yn argymhell GO Wales i unrhyw un sydd eisoes yn meddwl am wneud cais, oherwydd hebddynt ni fyddwn i wedi gallu cael y profiad perthnasol yr oedd ei angen arnaf. Yn fy achos i roeddwn eisoes yn hyderus o ran y llwybr gyrfa yr oeddwn am ei gymryd, ond i'r rhai sy'n ansicr mae'n bosibl cael ystod eang o leoliadau.

Beth yw eich barn am gefnogaeth tîm GO Wales? Sut mae hyn wedi eich helpu chi?

Mae'r gefnogaeth gan dîm GO Wales yn rhagorol. Maent wedi cadw mewn cysylltiad o'r funud y gwneuthum gais a thrwy gydol fy lleoliad i wneud yn siŵr fod popeth yn mynd yn iawn, ac wedyn tan ddiwedd y broses pan ddaeth yn amser i mi gyflwyno fy sylwadau adfyfyrio ac adborth.

Dyweddod y Cyflogwr Croesawu: "roedd y myfyriwr yn barod i gofleidio pob profiad ac yn hapus i drin a thrafod gyda'r staff ac yn arbennig i ymwneud â disgyblion yn y dosbarthiadau roedd yn arsylwi ynddynt. Dangosodd agwedd broffesiynol drwy gydol y profiad gwaith. Rhoddwyd amserlen iddo ac roedd yn gwybod yn iawn lle roedd angen iddo fod a chyda phwy, ac roedd yn abl iawn i weithio ar ei liwt ei hun. Rwy'n teimlo bendant y bydd yn ased i'r proffesiwn dysgu".

Dyweddod ymgynghorydd GO Wales: "Rydym ni'n ddiolchgar iawn i Ysgol Friars am gefnogi'r lleoliad gwaith hwn a chaniatáu i'r myfyriwr gael profiad uniongyrchol o addysgu a gweithredu mewn dosbarth. Teimlwn fod y cyfle hwn wedi rhoi golwg arbennig iddo ar swydd athro a gwneud iddo deimlo'n fwy hyderus i fwrw ymlaen gyda'r llwybr gyrfa hwn. Dymunwn bob llwyddiant iddo gyda'i gais TAR ac edrychwn ymlaen at glywed sut mae'n dod yn ei flaen".